## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

**1. Disgrifiwch ac esbonio effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.**

- *Sut bydd y cynnig yn effeithio ar fywyd plant, a hynny'n gadarnhaol ac yn negyddol?*

Mae'r fframwaith yn gasgliad o flaenoriaethau a pholisïau sydd eisoes wedi'u cyhoeddi, ac y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno arnynt, ac felly nid yw'n cael effaith fwy na llai na'r safbwynt a fabwysiadwyd eisoes.

Mae'r fframwaith yn seiliedig ar yr wyth blaenoriaeth Weinidogol a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2021:


- **CYNNAL EIN HYMATEB I COVID-19**
- **ADFERIAD Y GIG**
- **GWEITHIO OCHR YN OCHR Â GOFAL CYMDEITHASOL**
- **CYMRU IACHACH – STRATEGAETH AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL**
- **DISGYBLAETH ARIANNOL GIG CYMRU**
- **IECHYD MEDDWL – CLINIGOL A'R GYMDEITHAS EHANGACH**
- **CEFNOGI'R GWEITHLU IECHYD A GOFAL**
- **IECHYD Y BOBLOGAETH A THEGWCH IECHYD**

Dylid darllen y blaenoriaethau hyn yng nghyd-destun ymrwymiadau ehangach Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn cysylltiad â'r newid yn yr hinsawdd, partneriaethau cymdeithasol, a'r economi sylfaenol.

Mae'r fframwaith yn atgyfnerthu'r angen i gadw gwasanaethau hanfodol i fynd, ac i'r gwaith adfer fynd i'r afael â'r llwyth o gleifion sy'n aros am ddiagnosis a/neu driniaeth.

Mae cyd-weithwyr polisi sy'n gweithio ar draws y meysydd iechyd, cymunedau ac addysg wedi cyfrannu er mwyn deall sut gellir rhoi cymorth i ferched ag anawsterau iechyd meddwl amenedigol, a chael gwell dealltwriaeth o'r effaith ar blant drwy banel plant.

Mae'r pum lefel niwed yn sail i'r fframwaith, ac mae gwasanaethau plant yn rhan o hyn.




Rhaid i fyrddau iechyd roi sylw i wasanaethau plant mewn cysylltiad â'r niweidiau hyn i sicrhau bod y niwed yn cael ei leihau neu ei ddileu. Mae hyn yn hollbwysig i blant a phobl ifanc yn benodol, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y cymorth a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt, a hynny ar gyfer eu llesiant corfforol neu feddyliol.

Cytunwyd i sefydlu Panel Plant Cymru. Mae hyn yn gyfle i ehangu'r sylfaen dystiolaeth ynghylch y niwed i blant a phobl ifanc o ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19, ac i fonitro eu heffaith barhaus. Caiff cyllid ei ddarparu yn 21-22 i ddechrau ar y gwaith hwn.

Bydd Panel Plant sefydledig yn rhoi cyfle i feysydd polisi ar draws Llywodraeth Cymru gasglu safbwyntiau plant a phobl ifanc ar sail barhaus, a byddai'n ddull arall o gyflawni rhwymedigaethau cenedlaethol o dan agenda Hawliau Plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae ymchwil gan Brifysgol Rhydychen yn dangos y gallai effaith y pandemig ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc fod yn sylweddol. Mae rhieni a gofalwyr plant rhwng 4 a 10 oed wedi adrodd cynnydd yn anawsterau emosiynol eu plentyn – teimlo'n anhapus ac yn bryderus, a phrofi symptomau corfforol sy'n gysylltiedig â phryder*, a dywedodd 39% o'r plant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed a ymatebodd i arolwg 'Coronafeirws a Fi' Comisiynydd Plant Cymru** eu bod wedi bod yn bryderus y rhan fwyaf o'r amser neu rywfaint o'r amser yn ystod y pandemig.

Cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru arolwg o blant a phobl ifanc yng Nghymru i rannu eu safbwyntiau a'u profiadau o gyfnod clo diweddaraf y Coronafeirws drwy gyfrwng arolwg. Roedd bron i 20,000 o blant a phobl ifanc rhwng 3 a 18 oed wedi cymryd rhan.

[Coronafeirws a Fi - Canlyniadau ein harolwg Ionawr 2021 – Comisiynydd Plant Cymru (complantcymru.org.uk)]

Mae cyfraddau unigrwydd yn uchel a pheidio â gallu gweld ffrindiau sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywyd plant, wedi'i dilyn gan beidio â gallu gweld aelodau o'r teulu, ac effaith cau ysgolion a cholegau. Mae dros hanner yn mwynhau dysgu ar eu cyflymder eu hunain gartref ond mae llawer yn poeni am ddisgyn ar ei hôl hi o ran y dysgu – gwelir bod lefelau hyder a chymhelliant mewn cysylltiad ag addysg yn lleihau gydag oedran.

Mae'r mwyafrif helaeth o bobl ifanc rhwng 15 a 18 oed yn bryderus ynglŷn â disgyn ar ei hôl hi a'u cymwysterau, ac yn adrodd bod eu cymhelliant i wneud gwaith ysgol yn isel. Wrth gymharu canlyniadau ein harolygon, gwelir bod nifer y rhai rhwng 12 a 18 oed a ymatebodd i arolwg Ionawr 2021 yn dweud eu bod yn hapus 'y rhan fwyaf o amser' yn arwyddocaol is o'i gymharu ag arolwg Mai 2020, a bod cyfradd y rhai sy'n teimlo'n bryderus 'y rhan fwyaf o'r amser' yn arwyddocaol uwch.

Fel y gwelsom yn arolwg Mai, mae plant sy'n aml yn wynebu mwy o rwystrau o ran arfer eu hawliau, hyd yn oed pan nad oes pandemig, hefyd wedi wynebu mwy o anawsterau na'u cyfoedion ar gyfartaledd. Mae plant a phobl ifanc anabl yn fwy tebygol o boeni am y coronafeirws, yn fwy tebygol o deimlo'n drist, ac yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel.

Mae plant a phobl ifanc Du, Asiaidd a grwpiau ethnig lleiafrifol eraill yn fwy tebygol o deimlo'n unig ac yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel. Er gwaethaf y pryderon sy'n cael eu hadrodd gan blant a phobl ifanc, mae llawer yn adrodd profiadau cadarnhaol hefyd, fel y gwnaethant ym Mai 2020, gan gynnwys mwynhau treulio amser gartref a chael cymorth da gan ysgolion a gweithwyr ieuenctid.

Mae'r fframwaith yn cydnabod yr angen i ailgyflwyno gwasanaethau a chymorth i blant a phobl ifanc, a hynny ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

**2. Esboniwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.**

Drwy ddatblygu'r fframwaith, y bwriad yw cael effaith gadarnhaol ar nifer o erthyglau'r CCUHP, yn benodol:

- Erthygl 6: Yr hawl i fywyd ac i dyfu i fod yn iach
- Erthygl 19: Yr hawl i beidio â chael ei niweidio ac i gael gofal, a'i gadw'n ddiogel
- Erthygl 20: Yr hawl i dderbyn gofal os nad yw'r plentyn yn gallu byw â'i deulu ei hun
- Erthygl 23: Yr hawl i ofal arbennig a chymorth os yw'r plentyn yn anabl er mwyn gallu byw bywyd llawn ac annibynnol
- Erthygl 24: Yr hawl i fwyd a dŵr da ac i weld y meddyg os yw'r plentyn yn sâl
- Erthygl 25: Hawl plentyn nad yw'n byw gyda'i deulu i gael rhywun yn gwirio ei fod yn ddiogel yn gyson
- Erthygl 39: Yr hawl i gael cymorth arbennig os yw plentyn yn cael ei gam-drin

Un o swyddogaethau'r fframwaith yw rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ein bod yn cydweithio ledled y wlad i ddiogelu Cymru. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc.

Nid yw'r fframwaith ei hun yn creu polisïau newydd. Yn hytrach, mae'n casglu ynghyd polisïau a blaenoriaethau sy'n bodoli eisoes mewn dogfen gydlynol i helpu

cynllunwyr i ddeall y gofynion. Bydd y polisïau eu hunain wedi cael eu llunio ar sail hybu hawliau'r plentyn, ac felly bydd y fframwaith yn eu cryfhau yn yr un modd.

Mae cyllid adfer ychwanegol wedi'i gyhoeddi eisoes a'r bwriad yw ei fuddsoddi mewn profion diagnostig a thriniaethau ychwanegol i liniaru'r llwythi sydd wedi cronni o ganlyniad i Covid. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £248m yn 2021 i gefnogi'r rhaglen adfer, sy'n cynnwys gwasanaethau plant.

Gan fod nifer o atebion digidol wedi cael eu cyflwyno i fodloni anghenion cymorth plant a phobl ifanc (er enghraifft, y Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc a'r hyb gwybodaeth i blant ifanc â phrofiad o fod mewn gofal), bydd angen cefnogi'r rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol, a hynny yn ystod pandemig COVID-19 neu'n ehangach mewn cymdeithas.

Bydd angen sicrhau bod plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a gofalwyr yn gallu cael gafael ar y sgiliau angenrheidiol i ddefnyddio gwasanaethau digidol. Felly, yn y camau cyntaf, mae'n bosibl y bydd effaith negyddol o ran cael gafael ar wybodaeth ar rai plant a phobl ifanc sydd naill ai'n byw mewn tlodi neu mewn ardaloedd gwledig, ac nad oes ganddynt fynediad at fand eang.

Rhaid i sefydliadau'r GIG a'u partneriaid gofal cymdeithasol fod yn ymwybodol o hyn wrth gynllunio ar gyfer y gaeaf. Er nad oes adran benodol i blant, mae disgwyl i sefydliadau partner gynllunio a darparu gwasanaethau priodol i blant a phobl ifanc yn unol â'u dyletswyddau statudol.

Mae'r fframwaith yn cydnabod pa mor bwysig yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb drwy amrywiaeth o ddulliau (gan gynnwys cynadleddau i'r wasg, y teledu, radio, papurau newydd a chyfryngau cymdeithasol) am lefelau COVID-19 ar hyd a lled Cymru yn ystod y gaeaf hwn. Bydd hyn yn cynnwys cyfryngau a chymorth sy'n addas i blant, a fydd yn cael eu rheoli drwy ysgolion a sefydliadau addysgol (ee meithrinfeydd a sefydliadau addysg bellach).